# Gweithiwr Cartref Gofal i Oedolion

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn rhoi gofal a chymorth i bobl sy'n byw mewn cartref gofal. Byddwch yn helpu'r preswylwyr i gadw eu hannibyniaeth a byw eu bywyd i'r eithaf.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Cartrefi gofal
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc
**Cynnydd:** Rolau rheoli a rolau arbenigol



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

## Rheolwr Cartref Gofal i Oedolion

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn rheoli cartref gofal. Byddwch yn rheoli staff, rotas a chyllid y cartref. Byddwch yn sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant, y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith.

Gallech hefyd fod yn Rheolwr Cofrestredig y cartref.

**Cymwysterau:** Profiad a chymwysterau ffurfiol
**Lleoliad:** Cartrefi gofal
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc
**Cynnydd:** Rolau rheoli a rolau arbenigol



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

## Gweithiwr Cymdeithasol

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn cefnogi plant a theuluoedd, oedolion, grwpiau a chymunedau. Byddwch yn helpu pobl i adnabod eu cryfderau, datblygu eu sgiliau a datrys unrhyw broblemau neu heriau y maent yn eu hwynebu.

**Cymwysterau:** Gradd, llwybrau o rolau gweithwyr cymorth a datblygiad proffesiynol parhaus

**Lleoliad:** Cartrefi pobl, ysgolion, ysbytai a lleoliadau cymunedol

**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc

**Cynnydd:** Rheoli, Addysgwr Ymarfer, Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol a Gweithiwr Cymdeithasol Arbenigol



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Rheolwr Tîm Gwaith Cymdeithasol

Mwy o wybodaeth


Byddwch yn gyfrifol am redeg a rheoli tîm gwaith cymdeithasol o ddydd i ddydd. Gallai hynny gynnwys dyrannu gwaith achos, cyllidebau, adnoddau a goruchwylio aelodau'r tîm. Efallai y bydd gofyn i chi arwain ar bryderon diogelu hefyd.

**Cymwysterau:** Gradd, cymwysterau ôl-radd a datblygiad proffesiynol parhaus

**Lleoliad:** Cartrefi pobl, ysgolion, ysbytai a lleoliadau cymunedol

**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc

**Cynnydd:** Rheolwr Gwasanaeth, Cyfarwyddwr Gwasanaethau a Llywodraeth Cymru



# Gofalwr Maeth

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn darparu cartref sefydlog ac anogol i blentyn/plant. Er mwyn cefnogi eu hanghenion addysg, corfforol, meddyliol a chymdeithasol, byddwch hefyd yn cynnig gofal a chymorth emosiynol ac ymarferol.

**Cymwysterau:** Cwrs hyfforddiant maethu a datblygiad proffesiynol parhaus

**Lleoliad:** Eich cartref

**Gallech chi weithio:** 24 awr, saith diwrnod yr wythnos. Mae rolau maethu rhan-amser/seibiant ar gael hefyd

**Cynnydd:** Meysydd maethu arbenigol e.e. Maethu rhieni a phlant



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Nyrs Gofrestredig

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn gweithio gyda gweithwyr gofal proffesiynol eraill. Byddwch yn canolbwyntio ar gyflyrau iechyd pobl, drwy reoli eu meddyginiaeth a chefnogi eu cyfranogiad mewn gweithgareddau cymdeithasol.

**Cymwysterau:** Gradd a datblygiad proffesiynol parhaus
**Lleoliad:** Cartrefi gofal, ysbytai ac yn y gymuned
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc
**Cynnydd:** Rolau rheoli ac addysgu



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Gweithiwr Gofal Preswyl i Blant

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn cefnogi plant a phobl ifanc, gan roi ymdeimlad o sefydlogrwydd, diogelwch a gofal iddynt. Byddwch yn cefnogi addysg plant ac yn datblygu eu hannibyniaeth.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Cartrefi preswyl i blant
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc
**Cynnydd:** Rheoli, Uwch Weithiwr Cymorth a Gweithiwr Cymdeithasol



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Rheolwr Gofal Preswyl i Blant

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn cefnogi plant a phobl ifanc, gan ddarparu amgylchedd cartref diogel a sefydlog i helpu nhw ffynnu. Byddwch yn rhoi arweiniad, canllawiau a chymorth i staff.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Cartrefi preswyl i blant
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc
**Cynnydd:** Rheolwr Ardal





Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Gweithiwr Gofal Cartref

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn rhoi gofal a chymorth i blant, pobl ifanc ac oedolion yn eu cartrefi eu hunain. Byddwch yn gweithio gyda nhw a'u teuluoedd i gyflawni'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

**Cymwysterau:** Cymhwyso wrth wneud y swydd
**Lleoliad:** Cartrefi pobl
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc
**Cynnydd:** Rheoli ac arbenigo mewn meysydd fel dementia neu awtistiaeth



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Rheolwr Gofal Cartref

Mwy o wybodaeth

Chi sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth a'r staff yn effeithiol. Byddwch yn sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant, y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth sydd eu hangen arnynt.

Gallech hefyd fod yn Rheolwr Cofrestredig y cartref.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Mewn swyddfa ac yng nghartrefi pobl
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc
**Cynnydd:** Rheolwr Ardal




Gofalwn.cymru | WeCare.wales

## Gwarchodwr plant

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn darparu gofal plant i blant dan 12 oed yn eich cartref eich hun. Byddwch yn hunangyflogedig ac yn gyfrifol am redeg eich busnes eich hun.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Eich cartref
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc
**Cynnydd:** Ehangu Busnes



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Nani

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn gofalu am blant yng nghartref y teulu, ar sail byw yng nghartref y teulu, neu fyw yn eich cartref eich hun. Byddwch yn cefnogi chwarae, dysgu a datblygiad plant drwy weithgareddau a phrofiadau. Efallai y bydd disgwyl i chi helpu gyda dyletswyddau'r cartref a chasglu plant o'r ysgol.

**Cymwysterau:** Cymhwyso wrth wneud y swydd

**Lleoliad:** Cartref y plentyn

**Gallech chi weithio:**
Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc

**Cynnydd:** Gwarchodwr Plant ac Gweithiwr Meithrin





Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Gweithiwr Meithrinfa Ddydd

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm, gan greu amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol i blant. Byddwch yn cefnogi eu gofal, eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Meithrinfa
**Gallech chi weithio:** Dyddiau ac yn gynnar gyda'r nosau
**Cynnydd:**
Rheolwr, Asesydd ac arbenigo mewn cefnogi anghenion ychwanegol





Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Gweithiwr Crèche

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm, gan greu amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol i blant. Byddwch yn cefnogi eu gofal, eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol

**Lleoliad:** Crèche

**Gallech chi weithio:** Dyddiau ac yn gynnar gyda'r nosau

**Cynnydd:** Rheoli, Asesydd ac arbenigo mewn cefnogi anghenion ychwanegol






# Gweithiwr Grŵp Chwarae

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm, gan greu amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol i blant. Byddwch yn cefnogi eu gofal, eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad.

**Cymwysterau:** Cymhwyso wrth wneud y swydd
**Lleoliad:** Meithrinfa, Cylch Meithrin ac ysgolion
**Gallech chi weithio:** Yn ystod tymhorau ysgol
**Cynnydd:** Rheoli, Asesydd ac arbenigo mewn cefnogi anghenion ychwanegol



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Gweithiwr Chwarae

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn gofalu am blant rhwng tair a 14 oed. Byddwch yn eu helpu i archwilio, datblygu a ffynnu mewn amgylchedd chwarae. Byddwch yn darparu cyfleoedd i blant greu gofodau newydd a gwahanol ar gyfer chwarae; mawr a bach, y tu mewn neu'r tu allan, sy'n ddeniadol ac yn cynnig rhyddid i chwarae.

**Cymwysterau:** Cymwysterau penodol
**Lleoliad:** Lleoliadau amrywiol
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, nosweithiau cynnar, penwythnosau
**Cynnydd:** Uwch Weithiwr Chwarae, Hyfforddwr Gwaith Chwarae, Therapi Chwarae, Gweithiwr Chwarae Ysbyty a gofal plant y tu allan i oriau ysgol



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Gweithiwr Llety â Chymorth

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn helpu i redeg llety â chymorth arbenigol o ddydd i ddydd. Efallai y byddwch yn darparu cefnogaeth fewnol mewn amrywiaeth eang o leoedd fel lloches i fenywod, uned rhiant a babi, hosteli neu unedau diogel, ac mewn tai â chymorth arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu neu sy'n camddefnyddio sylweddau.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Llety cymorth, ysbytai arbenigol a lleoliadau cymunedol
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, gyda'r nosau, dros nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc
**Cynnydd:** Rheoli, Gweithiwr Ieuenctid, Gweithiwr Cymdeithasol, Cwnselydd neu gallech arbenigo mewn iechyd meddwl, anawsterau dysgu, camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Cydlynydd Gweithgareddau

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn creu rhaglen llawn boddhad o weithgareddau hwyliog, diddorol a chreadigol. Byddwch yn annog pobl i gymryd rhan mewn sesiynau cerddoriaeth, ymarfer corff a sesiynau artistig. Byddwch yn trefnu tripiau yn y gymuned.

**Cymwysterau:** Cymhwyso wrth wneud y swydd
**Lleoliad:** Cartrefi gofal, ysgolion, ysbytai a lleoliadau cymunedol
**Gallech chi weithio:** Oriau swyddfa ac ar benwythnosau
**Cynnydd:** Arweinydd Cynllun neu Reolwr Prosiect




Gofalwn.cymru | WeCare.wales

## Gweithiwr Cymorth

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn rhoi cymorth ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol i oedolion neu i blant, gan ofalu am eu lles ar yr un pryd. Byddwch yn cyflawni amryw o dasgau, gan gefnogi unigolion i ddysgu sgiliau newydd a'u galluogi i fyw bywyd llawn pwrpas a boddhad.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Cartrefi pobl, lleoliadau addysgol, cartrefi preswyl a lleoliadau cymunedol
**Gallech chi weithio:** Dyddiau, nosweithiau, penwythnosau a gwyliau banc
**Cynnydd:** Rheoli a chefnogaeth arbenigol






Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Gofalwr Cysylltu Bywydau

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn croesawu person sydd wedi'i baru'n ofalus â chi i mewn i'ch cartref a'ch bywyd teuluol. Gallech chi roi cymorth a chefnogaeth i rywun sydd ag anableddau dysgu, anableddau corfforol, dementia, problemau iechyd meddwl, neu rywun sydd angen gadael yr ysbyty.

**Cymwysterau:** Cymhwyso wrth wneud y swydd
**Lleoliad:** Yn eich cartref eich hun ac mewn lleoliadau cymunedol
**Gallech chi weithio:** Oriau hyblyg
**Cynnydd:** Gweithiwr Cymorth, Eiriolwr a Gweithiwr Cymdeithasol





Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Eiriolwr

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn cynnig cefnogaeth annibynnol i'r rheini nad ydynt yn cael eu clywed, gan sicrhau bod ganddynt lais a bod eu hawl i gynhwysiant yn cael ei gynnal.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Cartrefi pobl, llysoedd, ysbytai a lleoliadau cymunedol
**Gallech chi weithio:** Oriau swyddfa ac oriau y tu allan i oriau swyddfa mewn argyfwng
**Cynnydd:** Cydlynydd Eiriolaeth, Gweithiwr Cymdeithasol a Rheolwr Prosiect



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Gweithiwr Ailalluogi

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill ym mhob agwedd ar gynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty. Byddwch yn rhoi cyngor ar y gofal y gallai fod ei angen ar berson ar ôl iddo adael yr ysbyty ac yn cefnogi ac yn cynllunio'r gofal hwnnw. Byddwch yn helpu pobl i ddysgu neu ailddysgu'r sgiliau sy'n bwysig iddynt. Byddwch yn darparu ymyriad tymor byr.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol
**Lleoliad:** Yng nghartrefi pobl ac mewn ysbytai
**Gallech chi weithio:** Dyddiau a gyda'r nosau
**Cynnydd:** Asesydd Risg, Cydlynydd Gofal, Cydlynydd Rhyddhau o'r Ysbyty a Chynorthwyydd Therapydd Galwedigaethol



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn darparu gwaith arbenigol wedi'i dargedu i gefnogi plant a theuluoedd sydd ag anghenion cymhleth. Gallai hyn gynnwys cefnogi pobl sy'n camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, anableddau dysgu, anableddau corfforol neu feddyliol, salwch neu waith argyfwng.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol

**Lleoliad:** Cartrefi pobl a lleoliadau cymunedol

**Gallech chi weithio:** Oriau swyddfa a gyda'r nos o bryd i'w gilydd

**Cynnydd:** Gweithiwr Cymdeithasol a Rheolwr Prosiect



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Arolygydd Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn helpu i gofrestru, i arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau i sicrhau llesiant pobl Cymru.

**Cymwysterau:** Mae angen ystod o gymwysterau
**Lleoliad:** Mewn swyddfa neu mewn lleoliadau cymunedol
**Gallech chi weithio:** Oriau swyddfa
**Cynnydd:** Rheoli a Rheolwr Polisi Llywodraeth Cymru



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Therapydd Galwedigaethol Cymunedol

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn helpu pobl sydd â chyflyrau hirdymor i'w galluogi i fyw bywyd llawn ac annibynnol yn eu cartref ac yn y gymuned.

**Cymwysterau:** Gradd
**Lleoliad:** Cartrefi pobl a lleoliadau cymunedol
**Gallech chi weithio:** Oriau swyddfa
**Cynnydd:** Rheolaeth, Arweinydd Gwasanaeth a Hyfforddwr





Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Cynorthwyydd Personol

Mwy o wybodaeth


Byddwch yn darparu gofal a chymorth i'r unigolyn yn ei gartref ei hun, er mwyn iddo allu cyflawni'r pethau sy'n bwysig iddo.  Byddwch yn cael eich cyflogi'n uniongyrchol gan yr unigolyn.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol

**Lleoliad:** Cartrefi pobl a lleoliadau cymunedol

**Gallech chi weithio:** Oriau sy'n gyfleus i'r person a'r gweithiwr

**Cynnydd:** Gweithiwr Cymorth a Gweithiwr Cymdeithasol





Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn goruchwylio troseddwyr ifanc 10-17 oed sydd dan orchymyn llys, ar ddedfrydau cymunedol, neu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o sefydliadau diogel. Byddwch yn canfod ac yn asesu risg ac yn darparu gwasanaethau diogelu neu wasanaethau cefnogi. Byddwch yn gweithio ag asiantaethau cymorth fel tai a gwasanaethau camddefnyddio alcohol a chyffuriau.

**Cymwysterau:** Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol neu Gyfiawnder Ieuenctid

**Lleoliad:** Mewn swyddfa, yng nghartrefi pobl ac mewn lleoliadau cymunedol

**Gallech chi weithio:** Rheoli a Gweithiwr Cymdeithasol

**Cynnydd:** Rheoli a Gweithiwr Cymdeithasol



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

## Swyddog Diogelu

Mwy o wybodaeth

Chi fydd y person dynodedig sy'n helpu i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau diogelu. Byddwch yn rhoi gwybod i aelodau o staff am ddiogelu ac yn eu hyfforddi. Byddwch yn ymchwilio i bryderon ac yn rhoi gwybod i'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol am achosion.

**Cymwysterau:** Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a pherson diogelu dynodedig
**Lleoliad:** Swyddfa
**Gallech chi weithio:** Oriau swyddfa a gyda'r nosau
**Cynnydd:** Rheoli a Gweithiwr Cymdeithasol

Gweithdrefnau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

# Therapydd Celf

Mwy o wybodaeth

Byddwch yn cefnogi oedolion neu blant i'w helpu i oresgyn cyflyrau iechyd meddwl neu ymddygiad. Byddwch yn eu helpu i ddatblygu strategaethau ymdopi i gefnogi newid cadarnhaol.

**Cymwysterau:** Llwybrau amrywiol

**Lleoliad:** Cartrefi pobl, gofal plant a lleoliadau addysgol

**Gallech chi weithio:** Oriau swyddfa

**Cynnydd:** Rheoli ac Ymgynghori



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mwy o wybodaeth

Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r rheoleiddiwr gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

Maen nhw'n cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau i sicrhau llesiant pobl Cymru.

**Rolau amrywiol ar draws y sefydliad, gan gynnwys rolau cymorth, rolau arolygu a rheoli.**

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Gofal Cymdeithasol Cymru

Mwy o wybodaeth

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu arweiniad ac arbenigedd ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Maen nhw'n arwain y gwaith o reoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwella gwasanaethau, a data ac ymchwil i wella gofal.

**Amrywiol rolau ledled y sefydliad, gan gynnwys rolau cymorth, rolau rheoleiddio, rolau gwella a datblygu a rolau rheoli.**

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Coleg neu ddarparwr hyfforddiant

Mwy o wybodaeth

Gallwch fynychu'r coleg yn llawn amser neu'n rhan-amser, gan arbenigo mewn cymhwyster gofal plant neu iechyd a gofal cymdeithasol. Gallwch fynd ar leoliad fel rhan o'ch cymhwyster. Mae darparwr hyfforddiant yn cynnig dysgu seiliedig ar waith lle gallwch ddysgu yn y swydd.

**Cymwysterau:** Amrywiol
**Lleoliad:** Ysgolion, colegau, lleoliadau cymunedol ac ar-lein
**Gallech chi weithio:** Dyddiau neu nosweithiau
**Cynnydd:** Prifysgol a rolau mewn gofal



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

## Gwirfoddolwr

Mwy o wybodaeth

Mae gwirfoddoli yn eich helpu i ennill sgiliau a phrofiad o fewn lleoliadau gofal. Bydd yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi o'r rolau sydd ar gael mewn gofal.

**Cymwysterau:** Dim
**Lleoliad:** Lleoliadau gofal amrywiol ac yn y gymuned
**Gallech chi weithio:** Dyddiau a gyda'r nosau
**Cynnydd:** Rolau mewn gofal a dysgu pellach



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Prentis

Mwy o wybodaeth

Mae prentisiaethau'n cynnig ffordd o hyfforddi, datblygu sgiliau newydd a chyflawni cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol gan weithio ac ennill cyflog ar yr un pryd.

**Cymwysterau:** Amrywiol
**Lleoliad:** Lleoliadau gofal amrywiol
**Gallech chi weithio:** Dyddiau a gyda'r nosau
**Cynnydd:** Rolau mewn gofal a chynnydd yn y sefydliad




Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Rhaglenni hyfforddiant

Mwy o wybodaeth

Bydd rhaglenni hyfforddiant yn eich helpu i ddeall yr hanfodion angenrheidiol i ddechrau gweithio mewn gofal.

**Cymwysterau:** Dim
**Lleoliad:** Ar-lein neu wyneb yn wyneb
**Gallech chi weithio:** Dyddiau a gyda'r nosau
**Cynnydd:** Rolau mewn gofal a dysgu pellach



Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Cyflwyniad

Mae o leiaf 65 o swyddi gwahanol ym maes gofal ac mae ein cardiau gyrfaoedd yn dangos detholiad ohonynt.

- ‘Cymhwyster’ yw’r hyfforddiant lleiaf sydd ei angen arnoch i ddechrau yn y rôl
- Mae ‘Lleoliad’ yn cynrychioli lle gallech chi ddisgwyl gweithio yn y rôl dan sylw
- Mae ‘Cynnydd’ yn egluro’r cyfleoedd datblygu gyrfa yn y sector
- Mae ‘Gallech chi weithio’ yn rhoi enghreifftiau o ba adegau o’r dydd neu’r wythnos y gallech chi weithio yn y rôl.

Sylwch fod yr holl ddelweddau o weithwyr gofal go iawn. Efallai na fydd rhai delweddau yn cyd-fynd â’u rôl wirioneddol.

Gellir defnyddio’r cardiau gyrfa gyda’r gweithgareddau a ddarperir yn y pecyn hwn. Mae’r gweithgareddau’n amrywio yn ôl gallu ac oedran:

**H = Gweithgaredd Hawdd**
**C = Gweithgaredd Canolig**
**A = Gweithgaredd Anodd.**

I gael rhagor o wybodaeth a rhagor o gyfleoedd gyrfa, ewch i **Gofalwn.Cymru** neu anfonwch e-bost i **cyswllt@gofalwn.cymru**

## Gweithgareddau

**Gweithgaredd 1:** Beth sy'n gwneud gweithiwr gofal gwych? (H)

**Gweithgaredd 2:** Pa rinweddau sydd gennych chi? (H)
**Atebion:** Mae enghreifftiau'n cynnwys: cynnes, cyfeillgar, pendant, creadigol, yn llawn dychymyg, cadarnhaol, trefnus, digynnwrf, amyneddgar, brwdfrydig, tosturiol, empathig, gweithio'n galed, gwydn a sgiliau cyfathrebu da (siarad a gwrando).

**Gweithgaredd 3:** Dewiswch gerdyn. Penderfynwch ar y pedair rhinwedd bwysicaf sydd eu hangen ar gyfer y rôl hon. (C)

**Gweithgaredd 4:** Dewiswch gerdyn. Eglurwch bedair ffordd y mae'r rôl hon yn cefnogi rhywun. (H)

**Gweithgaredd 5:** Dewiswch gerdyn. Ymchwiliwch i'r hyn y mae'r swydd hon yn ei olygu. Dywedwch pam y gallech chi/na allech chi wneud y rôl hon. (H)

**Gweithgaredd 6:** Dewiswch gerdyn. Eglurwch beth fyddai'n digwydd pe na bai'r rôl hon yn bodoli? (C)

**Gweithgaredd 7:** Dewiswch gerdyn. Ysgrifennwch ddisgrifiad swydd ar gyfer y rôl hon. (A)

**Gweithgaredd 8:** Dewiswch gerdyn. Sut mae'r rôl hon yn bodloni pum egwyddor allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014)? (A)
**Atebion:** Llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, cyd-gynhyrchu ac amlasiantaeth.

## Gweithgareddau

**Gweithgaredd 9:** Dewiswch gerdyn. Gyda phwy fyddai'r rôl hon yn gweithio mewn partneriaeth? Darparu dull gweithredu amlasiantaeth. (C)

**Atebion:** Yr Heddlu, Ffisiotherapydd, Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ardal, ysgol, meithrinfa, canolfan ddydd, Meddyg Teulu, Bydwraig, Therapydd Galwedigaethol Cymunedol, ysbyty, tai, Cyfreithiwr, Eiriolwr, cymorth trydydd sector, llys, y teulu a'r person sy'n derbyn cymorth.

**Gweithgaredd 10:** Dewiswch gerdyn. Sut gallai'r rôl hon helpu rhywun i gael llais, dewis a rheolaeth yn ei fywyd? (A)

**Gweithgaredd 11:** Dewiswch gerdyn. Sut gallai'r rôl hon gefnogi rhywun i gymryd rhan weithredol yn eu gofal a'u cymorth? (A)

**Gweithgaredd 12:** Dewiswch gerdyn. Pwy sy'n rheoleiddio'r rôl hon er mwyn gwirio eu safonau? (A)

**Atebion:** Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n rheoleiddio'r gwasanaethau a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) sy'n rheoleiddio rhai o'r rolau gofal cymdeithasol. Mae enghreifftiau o reoleiddwyr eraill yn cynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg, Social Work England a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

# Gweithgareddau: Senario – Plant (C)

Mae David bron yn bedair oed ac mae ganddo barlys yr ymennydd (mae hwn yn gyflwr sy'n gallu cael effeithiau gydol oes ar symud a chydsymud). Mae'n fyddar yn un glust ac mae'n araf yn cerdded ac yn siarad.

**Gweithgaredd 1:** Ymchwiliwch i symptomau ac achosion parlys yr ymennydd.
**Atebion:** Mae'r symptomau'n cynnwys oedi cyn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol. Gallai hyn gynnwys y canlynol: y plentyn ddim yn cerdded erbyn iddo gyrraedd 18 mis oed, ymddangos yn rhy stiff neu'n rhy llipa, breichiau neu goesau gwan, symudiadau anesmwyth, plyciog neu drwsgl, symudiadau mympwyol heb eu rheoli, cerdded ar flaenau'r traed, anawsterau llyncu, problemau siarad, problemau gyda'r golwg ac anableddau dysgu.

Mae'r pethau sy'n achosi hyn yn cynnwys gwaedu yn ymennydd y babi, llai o waed ac ocsigen yn llifo i'w ymennydd, haint a gafodd y fam yn ystod beichiogrwydd, yr ymennydd ddim yn cael digon o ocsigen dros dro (asffycsia) yn ystod genedigaeth anodd, llid yr ymennydd neu anaf difrifol i'r pen.

---

Mae gan David weithiwr cymdeithasol anabledd a oedd wedi helpu ei rieni i archebu offer addas ar ei gyfer. Roeddent hefyd wedi cael Lwfans Byw i'r Anabl i helpu gyda chostau ychwanegol gofalu amdano.

**Gweithgaredd 2:** Pa wasanaethau neu rolau eraill fyddai'n helpu David?
**Atebion:** Ymwelydd Iechyd, Meithrinfa, Therapi Galwedigaethol Cymunedol, Therapi Lleferydd, Eiriolwr, Ffisiotherapi, Gweithiwr neu Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

# Gweithgareddau: Senario – Blaenlencyndod (A)

Mae Gwen yn 14 oed ac wedi bod gyda theulu maeth ers chwe wythnos. Cyn y lleoliad hwn, roedd hi'n byw gyda'i thad a oedd wedi bod yn cael anawsterau'n ymwneud â camddefnyddio sylweddau ac alcohol.

**Gweithgaredd 1:** Ymchwiliwch i symptomau ac arwyddion camddefnyddio alcohol.

**Atebion:** Mae'r symptomau'n cynnwys dryswch meddwl, anhawster aros yn ymwybodol, chwydu, ffitiau, trafferth anadlu, cyfradd curiad y galon araf, croen oer a llaith, diffyg adwaith fel dim adwaith cyfogi (sy'n atal rhywun rhag tagu), a thymheredd y corff isel iawn. Gall gorddos o alcohol arwain at niwed parhaol i'r ymennydd neu farwolaeth.

Mae arwyddion yn cynnwys dewis yfed cwrw dros gyfrifoldebau a dyletswyddau eraill, cael blacowts dros dro neu golli'r cof tymor byr, dangos arwyddion o dymer flin a newid eithafol mewn hwyliau, gwneud esgusodion dros yfed fel er mwyn ymlacio, delio â straen neu deimlo'n normal.

---

Mae Gwen wedi bod yn diflannu ar ôl ysgol am gyfnodau hir ac mae wedi bod dan ddylanwad alcohol sawl gwaith. Yn ddiweddar, mae hi wedi dechrau dwyn o siopau lleol a chafodd ei harestio. Mae hi bellach yn gweithio gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc.

**Gweithgaredd 2:** Pa wasanaethau eraill fyddai'n helpu Gwen? Beth arall allai fod yn digwydd o safbwynt Gwen?

**Atebion:** Mae gwasanaethau'n cynnwys yr Heddlu, gwasanaethau llys, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion Lles addysg, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau yn y gymuned, gwasanaethau teuluoedd, cymorth cwnsela, gweithiwr camddefnyddio sylweddau, eiriolwyr pobl ifanc, ymweliadau dan oruchwyliaeth gyda gweithiwr cymorth a'i thad. Gallai Gwen fod â chyswllt â gang neu Linellau Cyffuriau. Gallai hefyd fod yn ypset am nad yw'n byw gyda'i thad.

# Gweithgareddau: Senario – Oedolion (A)

Mae Gethin yn 44 oed ac mae wedi cael diagnosis o anhwylder sgitsoaffeithiol.

**Gweithgaredd 1:** Ymchwiliwch i symptomau ac achosion anhwylder sgitsoaffeithiol.
**Atebion:** Mae symptomau'n cynnwys iselder, camdybiaethau (bod â chredoau ffug, diwyro, er gwaethaf tystiolaeth i'r gwrthwyneb), rhithweledigaethau (fel clywed lleisiau neu weld pethau nad ydynt yno), amhariadau o ran cyfathrebu a siarad (fel mwydro, ymddwyn yn rhyfedd neu mewn ffordd anarferol).

Mae'r pethau sy'n achosi hyn yn cynnwys trawma yn ystod plentyndod, cam-drin rhywiol neu gorfforol, esgeulustod, digwyddiad trawmatig neu golli rhywun agos iawn (fel rhiant neu ofalwr).

---

Mae gan Gethin weithiwr cymdeithasol iechyd meddwl cymunedol sy'n ei gefnogi. Yn ddiweddar derbyniodd daliadau annibyniaeth bersonol (PIP) i helpu gyda chostau ychwanegol gofalu amdano mewn llety â chymorth.

**Gweithgaredd 2:** Pa wasanaethau eraill fyddai'n helpu Gethin?
**Atebion:** Nyrsys Iechyd Meddwl Cymunedol, Seiciatrydd, Eiriolwr, Gweithiwr Cymorth a Chyfeillachwr.

# Gweithgareddau: Senario – Babandod (C)

Mae Lucy yn 18 mis oed ac yn dioddef o Pica (anhwylder gorfodaeth bwyta pan mae pobl yn bwyta eitemau nad ydynt yn fwyd). Mae hi'n byw gyda'i mam Rhian, sy'n rhiant sengl ac sydd ag anabledd dysgu ysgafn.

**Gweithgaredd 1:** Ymchwiliwch i symptomau ac achosion Pica.
**Atebion:** Mae'r symptomau'n cynnwys bwyta baw, clai a fflawiau paent - dyma'r eitemau mwyaf cyffredin sy'n cael eu bwyta. Mae eitemau llai cyffredin yn cynnwys glud, blew, llwch sigarennau, a weips gwlyb.

Mae'r achosion yn cynnwys trawma yn ystod plentyndod, ymddygiad diwylliannol neu ymddygiad wedi'i ddysgu, straen, gorbryder, diffygion maeth, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau meddygol.

Mae'r anhwylder yn fwy cyffredin mewn plant, gan effeithio ar 10% i 30% o blant ifanc rhwng un a chwech oed. Fe'i gwelir yn aml mewn plant ifanc sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth (ASD) a mathau eraill o anableddau datblygiadol pan mae gan y plentyn symptomau awtistiaeth neu anabledd deallusol.

---

Penodwyd gweithiwr cymdeithasol ar gyfer Lucy yn ddiweddar. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ei chefnogi tra bo asesiad yn cael ei gwblhau.

**Gweithgaredd 2:** Pa wasanaethau eraill fyddai'n helpu Lucy?
**Atebion:** Meithrinfa, Ymwelydd Iechyd, Gweithiwr Cymorth, Eiriolwr, Tîm FACT, Paediatregydd a Meddyg Teulu.

# Gweithgareddau: Senario – Oedolyn (C)

Mae Sian yn 58 oed. Mae hi fel arfer yn ffit ac yn iach ond mae hi wedi cael strôc yn ddiweddar.

**Gweithgaredd 1:** Ymchwiliwch i symptomau ac achosion strôc.
**Atebion:** Mae'r symptomau'n cynnwys siarad yn aneglur neu anawsterau cyfathrebu, gwendid yn y cyhyrau ar un ochr (gan gynnwys yr wyneb), colli'r golwg yn sydyn neu olwg niwlog, dryswch, pendro, problemau cydsymud neu gydbwyso, cur pen sydyn a difrifol iawn, anhawster llyncu, colli ymwybyddiaeth a theimlo'n sâl.

Mae'r pethau sy'n achosi hyn yn cynnwys diffyg ocsigen i'r ymennydd pan mae clot gwaed wedi rhwystro'r pibellau gwaed (strôc isgemig) neu pan mae pibell waed yn yr ymennydd yn byrstio gan achosi gwaedu o amgylch yr ymennydd (strôc waedlifol).
Mae ffactorau risg yn cynnwys ysmygu, yfed gormod o alcohol, gordewdra, pwysedd gwaed uchel, colesterol uchel, diabetes a straen.

---

Mae gan Sian wendid yn ei chyhyrau ar ei hochr dde yn dilyn ei strôc. Mae hi'n gallu cerdded ond mae'n cael trafferth defnyddio ei braich a'i llaw dde.

Ar ôl arhosiad byr yn yr ysbyty, mae Sian yn cael ei rhyddhau ac yn cael mynd adref. Gan ei bod yn byw ar ei phen ei hun, bydd angen cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol arni i wneud yn siŵr ei bod yn gallu byw'n ddiogel gartref.

**Gweithgaredd 2:** Pwy fyddai'n ymwneud â helpu Sian i fyw'n ddiogel gartref?
**Atebion:** Gweithiwr cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol Cymunedol, Ffisiotherapydd, Gweithiwr Gofal Canolraddol a'r tîm Ailalluogi (Rheolwr, Cydlynydd Gofal, Asesydd Risg).

# Gweithgareddau: Senario – Oedolyn hŷn (C)

Mae Mohammed yn 81 oed ac mae wedi cael diagnosis o dementia.

**Gweithgaredd 1:** Rhestrwch y gwahanol fathau o ddementia a rhai o'r symptomau cyffredin.
**Atebion:** Mathau o ddementia Alzheimer, dementia fasgwlar, dementia cymysg, dementia cyrff Lewy a dementia blaen-arleisiol. Mae'r symptomau'n cynnwys colli'r cof, dryswch, penbleth, anawsterau cyfathrebu, newid mewn hwyliau, anawsterau wrth gynllunio a chyflawni tasgau dyddiol, newidiadau mewn ymddygiad a newidiadau canfyddiadol.

---

Mae Mohammed yn byw mewn cartref nyrsio. Mae'n cael anawsterau â'i gof ac â chyfathrebu, ond mae ei symudedd corfforol yn dda. Mae wir yn mwynhau treulio amser gyda'r cydlynydd gweithgareddau gan ei bod hi'n mynd ag ef allan i arddio.

**Gweithgaredd 2:** Ymchwiliwch i rôl cydlynydd gweithgareddau.

**Gweithgaredd 3:** Ymchwiliwch i fanteision gweithgareddau therapiwtig i unigolyn sydd â dementia.

**Gweithgaredd 4:** Pa rolau eraill sydd mewn cartref nyrsio?

**Gweithgaredd 5:** Allwch chi feddwl am unrhyw un y tu allan i'r cartref nyrsio a allai fod yn rhan o ofal Mohammed?
**Atebion:** Meddyg Teulu, Arbenigwr Dementia, teulu, Therapydd Galwedigaethol, Gweithiwr Cymdeithasol, Ffisiotherapydd, Therapydd Iaith a Lleferydd, Deintydd, Dietegydd a Nyrs Ymataliaeth.

# Gweithgareddau: Senario – Cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis mewn gofal (A)

Mae Tŷ Glas yn ganolfan ddydd sy'n cefnogi pobl ifanc sydd ag amryw o anableddau dysgu. Mae'r ganolfan yn cynnal gweithgareddau yn ogystal â chefnogi unigolion i ennill sgiliau i hybu annibyniaeth.

Mae Rowena newydd ddod i Tŷ Glas. Mae hi'n cael trafferth deall gwybodaeth ac mae angen cymorth arni i wneud penderfyniadau ac i fynegi ei hanghenion.

**Gweithgaredd 1:** Pam ei bod yn bwysig bod Rowena yn cael yr un cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau â phawb arall?

**Gweithgaredd 2:** Sut gallwch chi gefnogi Rowena i'w helpu i ddewis y gweithgareddau yr hoffai gymryd rhan ynddynt?

---

Mae Rowena hefyd wedi dweud y byddai'n hoffi cael ei chefnogi gan weithiwr gofal sy'n ddyn.

**Gweithgaredd 3:** Pam mae cael gweithlu amrywiol yn bwysig i ddiwallu anghenion a bodloni dewisiadau'r unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth?

---

Mae Glyn hefyd yn dod i'r ganolfan. Mae'n gallu cyfathrebu yn Saesneg, ond Cymraeg yw ei iaith gyntaf. Ar hyn o bryd, nid oes neb o staff y ganolfan yn siarad Cymraeg.

**Gweithgaredd 4:** Mae'n bwysig bod pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Sut gall Glyn gael cymorth i gyfathrebu tra bydd o yn y ganolfan?

**Atebion:** Ystyriwch y canlynol: dewis, diwylliannau, cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch.